



Nefyn i Borthdinllaen, Gwynedd

Taith gerdded wych i'r teulu gyda phyllau cerrig a thraeth ar hyd y ffordd.

"Peidiwch â cholli'r golygfeydd ar hyd yr arfordir tuag at Ddinas Dinlle gyda mynyddoedd yr Eifl yn gefnlen. Mae'r daith gerdded hon hefyd yn mynd heibio Porthdinllaen, sy'n un o faeau harddaf yr ardal, gyda'i gymuned fach lan môr a thafarn wych sy'n cynnal digwyddiadau drwy gydol yr haf. Os ydych chi'n ffodus iawn, efallai y gwelwch chi forloi ar hyd yr arfordir yn fan hyn hefyd – cofiwch ddod â binocwlars i'r plant."

RHYS ROBERTS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Dechrau a Diwedd:

Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn i Borthdinllaen.

Pellter:

3 milltir/5km.

Ar hyd y ffordd...

Mae'r daith gerdded yn cychwyn yn Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn (casgliad hynod ddiddorol o arteffactau mordwyol sy'n werth ei weld), mae'r daith gerdded yn dilyn yr arfordir i bentref pysgota hyfryd Porthdinllaen.

Wrth i chi deithio tuag at Benrhyn Nefyn, cymerwch hoe ar fainc a mwynhau'r golygfeydd dros Fôr Iwerddon. Ar ddiwrnod clir, gallwch chi wylio'r llongau a'r llongau nwyddau'n hwylio i mewn

i borthladd Caergybi ar Ynys Môn. Edrychwch i'r gogledd ar hyd yr arfordir i weld hen chwareli Carreg y Llam, ger Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn.

Pan fyddwch chi'n barod i symud ymlaen, anelwch am Glwb Golf Nefyn a'r Cyffiniau a dilynwch y ffordd i lawr i bentref Porthdinllaen. Saif ar fae bychan ar flaen y penrhyn gogleddol sy'n gyfuriog o fflora a ffawna morol. Yn eu mysg mae gwelyâu o forwellt, cynefin morol pwysig sy'n adnabyddus am helpu sefydlogi gwaddodion gwely'r môr a rhoi lloches i amrywiaeth o bysgod, adar ac infertebratau.

Os oes angen lluniaeth arnoch chi, galwch draw i dafarn Tŷ Coch. Mae'n union wrth ymyl y môr, yn un o dafarndai enwocaf Cymru ac wedi ei enwi'n un o fariau traeth gorau'r byd. Neu, crwydrwch ar hyd yr arfordir i'r bae ynysig sy'n gartref i orsaf bad achub newydd Porthdinllaen.

Angen gwybod:

Mae nifer o siopau, caffis, meysydd parcio a thoiledau yn Nefyn. Ar hyd y ffordd byddwch chi'n pasio lleoedd i gael hoe fel Tafarn y Cliffs, Caffi Porthdinllaen a Thafarn Tŷ Coch.

Mae Gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn yn ffordd wych o grwydro'r rhan drawiadol hon o Llwybr Arfordir Cymru – yn enwedig os ydych chi coesau chi wedi blino!

Ewch i wefan Bws Arfordir Llŷn i weld yr amserlen a manau codi: <http://www.bwsarfordirllyn.co.uk/>